**Pwyllgor Cynllunio**
**21 Tachwedd 2012**

**ADRODDIAD YN GOFYN AM BENDERFYNIAD AR YR AMODAU CYNLLUNIO I'W DODI YNGHLWM WRTH GAIS CYNLLUNIO 03/2012/0373**

| | |
|---|---|
| **WARD RHIF:** | **Efenechtyd** |
| **RHIF CAIS:** | **11/2012/0373** |
| **CYNNIG:** | **Gosod tyrbin gwynt microgynhyrchu 50kW (Rhif 1) gyda blwch rheoli a llwybr mynediad** |
| **LLEOLIAD:** | **Cil Llwyn, Bontuchel, Rhuthun** |
| **YMGEISYDD:** | **Mr D Roberts** |

---

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Gofyn am benderfyniad gan yr Aelodau ar yr amodau cynllunio i'w dodi ynghlwm wrth y Dystysgrif Penderfyniad ar gyfer cais cynllunio cyf: 11/2012/0373 a gafodd ganiatâd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

## 2. CEFNDIR

1.1 Ar 17eg Hydref 2012 penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio roddi caniatâd i adeiladu tyrbin gwynt 50kW yn Nghil Llwyn, Bontuchel yn groes i argymhelliad y Swyddog Cynllunio.

1.2 Er gwybodaeth, mae adroddiad y Swyddog i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn. Nid yw haeddiannau'r cais yn faterion i'w hystyried nawr.

1.2 Roedd y drafodaeth yng nghyfarfod mis Hydref yn seiliedig ar yr angen i gefnogi blaengareddau ffermio lleol, ond ni roddwyd rheswm penodol dros fynd yn erbyn argymhelliad y swyddog, fel sy'n ofynnol dan y protocol, ac ni thrafodwyd amodau cynllunio.

1.3 Ar ôl cyngor gan Swyddog Cyfreithiol a Cyngor a thrafodaethau gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, mae'r Swyddogion yn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor, i'r Aelodau gynnig, er mwyn ei gofnodi, rheswm cynllunio ar gyfer rhoi caniatâd yn groes i argymhelliad y Swyddog, ac i ystyried a gwneud penderfyniad ar yr amodau yr awgrymir y dylid eu dodi ynghlwm wrth y caniatâd cyn cyflwyno'r hysbysiad penderfynu.

1.4 Cred y swyddogion bod yr amodau drafft yn Adran 2 yr adroddiad yn rhesymol ac yn angenrheidiol mewn perthynas â'r cais, ac yn delio â materion megis adeiladu, lleoliad a golwg y tyrbin, sŵn a mwynderau, tirweddu, mesurau lliniaru bioamrywiaeth a threfniadau ar gyfer adfer y safle pan ddatgomisiynir y tyrbin. Mae'r amodau a awgrymir hefyd yn unol â chaniatâd cynllunio ar gyfer cynigion tyrbin gwynt 50kW a roddwyd gan y Cyngor yn y gorffennol.

## 2. AMODAU DRAFFT

Yr Amod(au) yw:

1. Dylid cychwyn ar y datblygiad a ganiateir trwy hyn cyn i bum mlynedd ddod i ben o ddyddiad y caniatâd hwn.

2. Bydd y caniatâd cynllunio am gyfnod o 25 mlynedd o ddyddiad cynhyrchu trydan am y tro cyntaf o'r tyrbin. Dylid cyflwyno cadarnhad ysgrifenedig o ddyddiad cynhyrchu trydan o'r datblygiad am y tro cyntaf i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddim hwyrach nag 1 mis calendr ar ôl y digwyddiad hwnnw.

3. Dylid lleoli'r tyrbin, y fynedfa a'r llwybr i'r safle yn y mannau a nodir ar y cynlluniau a gyflwynwyd. Caniateir amrywiad yn y lleoliad a nodwyd ar gyfer y tyrbin gan hyd at 25 medr, cyn belled â nad yw'r tyrbin yn cael ei symud yn nes at anheddiad preifat Pengalltegfa nac unrhyw wrychoedd presennol. Bydd amrywiad o fwy na 25 medr yn gofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

4. Mae'r caniatâd hwn yn ymwneud yn unol ag adeiladu tyrbin 3 llafn fel y disgrifir yn y cynlluniau a'r darluniau yn y cais gydag uchder mwyaf i frig y llafn yn 46m o lefel wreiddiol y ddaear.

5. Bydd gorffeniad y tyrau tyrbin, y both a'r llafnau yn lled-fatte. Bydd y llafnau a'r nasél yn RAL 9003 Signal White a'r tŵr yn RAL 9016 Traffic White, neu fel y cymeradwywyd mewn llythyr gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn ar unrhyw waith i'w codi ar y safle.

6. Caiff y caban offer ei adeiladu yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd ac ni chaniateir unrhyw gyfarpar ategol allanol ychwanegol sydd ei angen mewn cysylltiad â gweithredu'r tyrbin megis blychau mesuryddion, gêr switsio a llinellau uwchben a pholion heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw.

7. Ni ddylai unrhyw ran o'r datblygiad arddangos unrhyw enw, logo, arwydd, hysbyseb neu ddull o oleuo heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw.

8. Dylid gosod holl geblau trydan a cheblau rheoli o dan y ddaear a dylai llwybrau'r ceblau groesi gwrychoedd lle mae blychau presennol yn y planhigion.

9. Ni ddylid tynnu ymaith neu niweidio unrhyw goed neu wrychoedd yn ystod gwaith adeiladu'r datblygiad a dylid gosod ffensys i warchod cynefin y pathew ar hyd unrhyw wrych sy'n cyffinio'r llwybr mynediad dros dro a chompownd y safle adeiladu yn ystod y cyfnod adeiladu.

10. Dylid symud ymaith unrhyw lwybrau mynediad dros dro a'r compownd safle adeiladu ac adfer y tir i'w broffil a'i gyflwr blaenorol o fewn cyfnod o 6 mis ar ôl dyddiad cynhyrchu trydan o'r datblygiad am y tro cyntaf.

11. Dylid plannu rhywogaethau cynhenid gan gynnwys collen ar hyd y gwrychoedd presennol sydd o fewn rheolaeth yr ymgeisydd, fel y nodir ar y cynlluniau a gymeradwywyd, cyn cynhyrchu trydan i'r grid am y tro cynta.

12. NI ddylai sŵn o'r tyrbin fod yn fwy na $35dB_{LA90,10min}$ ar gyfer cyflymder gwynt o hyd at 10m/s ar uchder o 10m pan gaiff ei fesur yn gronnus yn y derbynnydd sŵn sensitif agosaf yn unol ag ETSU-R-97.

13. Os bydd cwynion i’r Awdurdod Cynllunio Lleol ynglŷn â sŵn y gellir ei briodoli i weithrediad y tyrbin, ac ar ôl archwiliad rhagarweiniol gan yr Awdurdod i asesu bod cyfiawnhad dros wneud cwyn o’r fath:

a) Bydd yr Awdurdod yn hysbysu’r ymgeisydd, mewn llythyr, o’r gŵyn.
b) O fewn mis o’r hysbysiad gan yr Awdurdod bydd yr ymgeisydd yn trefnu, ar eu cost eu hunain, asesiad sŵn gan ymgynghorwyr acwstig annibynnol, yn unol â brîff i’w bennu gan yr Awdurdod, i ganfod os yw telerau Amod 11 yn cael eu cwrdd.
c) Dylid cyflwyno copi o’r asesiad sŵn a ymgymerwyd yn unol â b) i’r Awdurdod ddim hwyrach na dau fis ar ôl dyddiad yr hysbysiad.

14. Os canfyddir bod y sŵn y gellir ei briodoli i’r tyrbin yn fwy na’r lefelau a nodwyd yn Amod 12, dylid cyflwyno mesurau lliniaru i sicrhau cydymffurfio ag Amod 12 mewn llythyr a’u cytuno gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’u gweithredu o fewn 3 mis. Lle nad yw mesurau lliniaru wedi eu gweithredu o fewn 3 mis, bydd y tyrbin yn cael ei gau ac ni ddylai weithredu nes bydd y mesurau lliniaru wedi eu gweithredu.

15. I gynorthwyo gydag ymchwiliadau effaith gronnus a chwynion, bydd yr ymgeisydd yn diffodd y tyrbin dros dro (gan ddefnyddio’r brêc i stopio’r rotorau) i hwyluso gydag ymchwiliadau sŵn sy’n digwydd mewn lleoliadau cyfagos, pan ofynnir am hynny mewn llythyr gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

16. Os derbynnir cwynion â chyfiawnhad ynglŷn â chysgodion symudol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gan unrhyw annedd lle mae rhywun yn trigo ynddo, a oedd yn bodoli neu wedi cael caniatâd adeg rhoi’r caniatâd hwn, hysbysir y datblygwr mewn llythyr a chytunir mesurau lliniaru i reoli, ail-gyfeirio, neu ddiffodd y tyrbin nes bydd yr amodau sy’n achosi’r cysgodion symudol wedi dod i ben, gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’u gweithredu o fewn 3 mis o’r hysbysiad.

17. Os bydd y tyrbin gwynt a ganiateir trwy hyn yn peidio â gweithredu am gyfnod o 6 mis, dylid tynnu’n ddarnau y tyrbin a’r cyfarpar ategol a’u symud o’r safle, a dylid symud ymaith y sylfeini i ddyfnder lleiaf o 1.0m islaw lefel y ddaear, a dylid adfer y tir i’w broffil a’i gyflwr blaenorol o fewn cyfnod o 6 mis o ddiwedd y cyfnod 6 mis oni chytunir fel arall gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol.

18. Dim hwyrach na 12 mis cyn i gyfnod gweithredu 25 mlynedd y caniatâd hwn ddod i ben, dylid cyflwyno cynllun i adnewyddu ac adfer y safle i’r broffil a’i gyflwr blaenorol, gan gynnwys tynnu’n ddarnau a symud ymaith yr holl elfennau uwchlaw’r ddaear, a thynnu ymaith sylfeini’r tyrbin i ddyfnder lleiaf o 1.0m islaw lefel y ddaear, i’w ystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dylid gweithredu’r cynllun a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn 12 mis i’r dyddiad pan ddaw’r caniatâd cynllunio a roddir trwy hyn yn dod i ben.

Y rheswm(rhesymau) dros yr amod(au) yw:-

1: Cydymffurfio â darpariaethau Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2: I osgoi amheuaeth ac er mwyn i’r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw rheolaeth dros ddefnydd y tir yn y tymor hirach.

3: I osgoi amheuaeth, i ganiatáu i’r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw rheolaeth dros y datblygiad ac er budd mwynderau preswyl a chadwraeth natur.

4 I osgoi amheuaeth ac er budd mwynderau gweledol.

5: I osgoi amheuaeth ac er budd mwynderau gweledol.

6: I osgoi amheuaeth ac er budd mwynderau gweledol.

7: Er budd mwynderau gweledol.

8: Er budd mwynderau gweledol a chadwraeth natur.

9: Er budd mwynderau gweledol.

10: Er budd mwynderau gweledol.

11: Er budd cadwraeth natur.

12: Er budd mwynderau trigolion eiddo preswyl yn yr ardal.

13: I sicrhau bod mesurau digonol yn bodoli i fonitro ac asesu sŵn o'r tyrbin os bydd cwynion, ac er budd mwynderau trigolion eiddo preswyl yn yr ardal.

14: I ganiatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw rheolaeth dros y datblygiad ac er budd mwynderau trigolion eiddo preswyl yn yr ardal.

15: I sicrhau bod mesurau digonol yn bodoli i fonitro ac asesu sŵn o'r tyrbinau os bydd cwynion, ac er budd mwynderau trigolion eiddo preswyl yn yr ardal.

16: Er budd mwynderau trigolion eiddo preswyl yn yr ardal.

17: I sicrhau bod trefniadau digonol yn bodoli i adfer y safle, er budd mwynderau gweledol.

18: I sicrhau adferiad hirdymor y safle, er budd mwynderau gweledol.

**NODYN I'R YMGEISYDD:**

Tynnir eich sylw at:

- Nodiadau Ategol Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, Rhifau 1,3,4,5 & 10
- Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 – Ffurflen Rhan N
- Nodyn Canllaw "Cyngor Safonol" Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Datblygwyr

<u>MOD</u>
Fe'ch atgoffir o'r angen i hysbysu'r Weinidogaeth Amddiffyn o ddyddiad cychwyn a gorffen y gwaith adeiladu; uchder mwyaf yr offer adeiladu, a lledred a hydred y tyrbin.

Manylion cyswllt yr MOD: MOD Safeguarding, Defence Infrastructure Organisation, Kingston Road, Sutton Coldfield, West Midlands, B75 7RLFfôn: 0121 311 3781 Ffacs: 0121 311 2218 Ebost: DIO-Safeguarding-Wind@mod.uk

**ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Aelodau:

a) gadarnhau'r rheswm cynllunio dros roddi caniatâd yn groes i argymhelliad, a

b) derbyn yr amodau drafft uchod a chytuno bod y rhain yn cael eu hatodi i’r caniatâd.